



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ynghylch Diwygio Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Dyddiad cyhoeddi: **04 Medi 15**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **27 Tachwedd 2015**

Trosolwg

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi ac, o bryd i'w gilydd, adolygu eu Codau Ymarfer presennol, yn rhinwedd adran 118 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Wrth wneud hynny mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â'r cyrff yr ymddengys iddynt hwy fod a wnelont â'r pwnc. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses honno. Mae'n gofyn am eich ymateb chi i rai cwestiynau penodol i helpu wrth ddrafftio diwygiad o'r Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl.

Sut i ymateb

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar y Cod Ymarfer. Mae modd i chi rannu eich sylwadau drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (rhai o'r cwestiynau neu pob un ohonynt), arlein, dros e-bost neu yn y post.

Gallwch anfon eich ymateb atom trwy'r e-bost yn:
mentalhealthandvulnerablegroups@cymru.gsi.gov.uk

Neu i'r cyfeiriad a ganlyn:
Rheolwr Deddfwriaeth
Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau
Agored i Niwed
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â mwynflwch y Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed yn:
mentalhealthandvulnerablegroups@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion. Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth

Cefndir

Cefndir a statws y Cod Ymarfer

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i gadw a thrin cleifion dan orfodaeth. Mae'r Cod Ymarfer (y Cod) yn rhoi arweiniad ynghylch y modd y dylid cymhwyso'r Ddeddf a'r egwyddorion a ddylai oleuo penderfyniadau.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi ac, o bryd i'w gilydd, adolygu eu Codau Ymarfer presennol, yn rhinwedd adran 118 o'r Ddeddf. Wrth wneud hynny mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â'r cyrff yr ymddengys iddynt hwy fod a wnelont â'r pwnc.

Ers creu'r Cod Ymarfer ar wahân ar gyfer Cymru yn 2008, bu newidiadau a diweddariadau i ddeddfwriaeth, polisi, cyfraith achosion, ac ymarfer proffesiynol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y Cod presennol. Yn enwedig, y berthynas rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae diweddaru a diwygio'r Cod yn rhan bwysig o sicrhau bod hawliau cleifion a gedwir yn cael eu hamddiffyn.

Mae'r Cod yn rhoi arweiniad i unigolion penodol, gan gynnwys ymarferwyr meddygol cofrestredig ('meddygon'), clinigwyr cymeradwy, rheolwyr a staff ysbytai, ysbytai annibynnol a chartrefi gofal, eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol a phroffesiynolion iechyd meddwl cymeradwy ynghylch y modd y dylent fynd ati wrth gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau dan y Ddeddf. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i feddygon a phroffesiynolion eraill ynghylch agweddau penodol ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol yn fwy cyffredinol.

Gallai unrhyw achos o wyro oddi wrth y Cod arwain at her gyfreithiol a dylai felly gael ei gofnodi ynghyd â'r rhesymau. Bydd llys yn archwilio'r rhesymau dros wyro oddi wrth y Cod er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad digon pendant dros wneud hynny. Disgwylir y bydd tystiolaeth briodol o unrhyw resymau o'r fath.

Datganiad o egwyddorion

Fe ddiwygiodd Deddf Iechyd Meddwl 2007 adran 118 o Ddeddf 1983. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad o egwyddorion yn y Cod, a ddylai oleuo penderfyniadau dan y Ddeddf. Wrth baratoi'r datganiad o egwyddorion, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau y rhoddir sylw i bob un o'r materion canlynol :

- parch tuag at ddymuniadau a theimladau cleifion yn y gorffennol a'r presennol
- parch tuag at amrywiaeth yn gyffredinol gan gynnwys, yn enwedig, amrywiaeth o ran crefydd, diwylliant a chyfeiriadedd rhywiol (o fewn ystyr adran 35 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006)

- lleihau cyfyngiadau ar ryddid i'r eithaf
- cynnwys cleifion yn y broses o gynllunio, datblygu a darparu gofal a thriniaeth sy'n briodol iddynt
- osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon
- effeithiolrwydd triniaeth
- barn gofalmwyr a phartion eraill cyfrannog
- lles a diogelwch cleifion
- diogelwch y cyhoedd.

Datblygu'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer ymgynghori

Cafodd y Cod drafft ei baratoi ar y cyd ag aelodau o Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cod Ymarfer ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd y grŵp yn cynrychioli rhanddeiliaid iechyd meddwl yng Nghymru, ac yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalmwyr, sefydliadau'r trydydd sector a phroffesiynolion iechyd meddwl.

Hefyd, fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru nifer o weithdai gyda grwpiau penodol. Cynhaliwyd gweithdai gydag Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol, Rheolwyr a Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl, Proffesiynolion Iechyd Meddwl Cymeradwy, Proffesiynolion Iechyd Meddwl eraill gan gynnwys Clinigwyr Cymeradwy a Nyrsys Iechyd Meddwl. Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol hefyd ar wardiau i gleifion mewnol ar gyfer; plant a phobl ifanc, oedolion, pobl hŷn, y rhai ag anabledd dysgu a chleifion ffforensig.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg a swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

Mae'r broses o ddiwygio'r Cod wedi ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol ers i'r Cod blaenorol gael ei ysgrifennu, yn enwedig:

- gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 o ran cynllunio gofal a thriniaeth a'r ddarpariaeth estynedig o ran eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol,
- y berthynas rhwng y Ddeddf, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

O fewn y Cod drafft ceir pwyslais cryfach ar y canlynol:

- cynnwys cleifion a, lle y bo'n briodol, eu teuluoedd a'u gofalmwyr ym mhob agwedd ar asesiadau a thriniaeth
- deall egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a sut y dylai'r rhain fod yn gymwys i'r holl ofal a thriniaeth
- cynnwys Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol,
- defnyddio cludiant priodol ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf i sicrhau eu hurddas a'u diogelwch hyd y bo'n ymarferol.

Mae dau fater arall y cynigir rhoi arweiniad yn eu cylch yn y Cod drafft nad ydynt yn y cod presennol:

Yn gyntaf, nid yw'r Cod presennol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth o ran amseriad asesiadau iechyd meddwl ar gyfer pobl a gedwir gan yr heddlu dan

adran 136 o'r Ddeddf. Mae'n cadarnhau bod y Ddeddf yn darparu terfyn o 72 awr ar gyfer cadw cleifion dan adran 136 ac mai dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylai asesiadau ddigwydd mewn gorsaf heddlu. Mae'r Cod drafft yn cynnig aildatgan na ddylid byth defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, o ran amseriad asesiadau yng ngorsaf yr heddlu ac mewn mannau eraill mae'r Cod drafft yn cynnig y dylid eu cynnal o fewn 3 awr. Ar ben hynny, mae'r Cod drafft yn cynnig na ddylai cleifion gael eu cadw mewn gorsaf heddlu am yn hwy nag uchafswm o 12 awr.

Yn ail, mae'r Cod drafft yn cynnig y bydd cynllun gofal a thriniaeth, os oes angen un, yn cael ei ddechrau'n ddim hwyrach na 72 awr ar ôl derbyn claf. Mae hyn yn unol â'r cyfnod asesu a ddyfynnir yn fynych yn y Ddeddf, er enghraifft pan fo claf sy'n ddarostyngedig i orchymyn triniaeth gymunedol yn cael ei alw'n ôl i'r ysbyty, mae gan y clinigwr â chyfrifoldeb 72 awr i asesu'r claf a phenderfynu a yw'n mynd i ryddhau'r claf neu diddymu'r gorchymyn triniaeth gymunedol.

Mae'r Cod drafft wedi cael ei aildrefnu a Phenodau newydd wedi cael eu cynnwys sydd wedi adeiladu ar gynnwys y Cod presennol.

Penodau'r Cod Ymarfer ar y Ddeddf Iechyd Meddwl	
Pennod 1	Mae'n nodi'r egwyddorion arweiniol y dylid eu hystyried bob amser wrth wneud penderfyniadau ynghylch dull gweithredu dan y Ddeddf.
Pennod 2	Mae'n darparu diffiniad o anhwylder meddyliol.
Pennod 3	Mae'n ymdrin â'r angen i ystyried deddfwriaeth berthnasol a chonfensiynau rhyngwladol wrth wneud penderfyniadau.
Pennod 4	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i gleifion a'u perthnasau agosaf a'u hegluro wrthynt, ac ynghylch cyfathrebu gyda chleifion, eu teuluoedd, gofalwyr a phobl eraill.
Pennod 5	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch adnabod y perthynas agosaf a rôl y person hwnnw.
Pennod 6	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch rôl Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol a chyfrifoldebau pobl eraill am wneud claf yn ymwybodol o'r help y mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol yn ei roi.
Pennod 7	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch effaith y Ddeddf ar bŵer rhoddeion atwrneiaeth arhosol a dirprwyon a benodwyd gan y llys dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
Pennod 8	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch amgylcheddau therapiwtig gan sicrhau preifatrwydd, urddas a diogelwch i gleifion a bod

	gwasanaethau'n mabwysiadu dull dim goddefgarwch mewn perthynas â cham-drin corfforol neu eiriol.
Pennod 9	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch barn a fynegwyd gan gleifion o ran eu dymuniadau o ran yr hyn yr hoffent, neu na hoffent, iddo ddigwydd pe bai sefyllfaoedd penodol yn codi.
Pennod 10	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch materion cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth sy'n codi mewn perthynas â'r Ddeddf ac ynghylch rhannu gwybodaeth gan broffesiynolion ac asiantaethau.
Pennod 11	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch galluogi cleifion i gael ymweliadau yn yr ysbyty a chadw cysylltiad gyda theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymunedol.
Pennod 12	Mae'n egluro diben Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ac yn rhoi arweiniad i bawb sy'n rhan o wneud ceisiadau, paratoi adroddiadau a mynychu gwrandawiadau.
Pennod 13	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch y berthynas rhwng Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
Pennod 14	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch y meini prawf a'r ystyriaethau wrth wneud cais i gadw claf yn yr ysbyty dan adran 2 neu adran 3 o'r Ddeddf.
Pennod 15	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch ceisiadau brys i gadw cleifion at ddiben asesiad dan adran 4 o'r Ddeddf.
Pennod 16	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch pwerau'r heddlu i symud person i fan diogel dan ddarpariaethau'r Ddeddf, asesu person a symudwyd i fan diogel ac unrhyw drosglwyddiad diweddarach i fan diogel arall.
Pennod 17	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch cludo cleifion o un lle i'r llall dan ddarpariaethau'r Ddeddf.
Pennod 18	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch defnyddio pwerau cadw sydd ar gael i feddygon, clinigwyr a nyrsys cymeradwy, a sut y dylid eu harfer.
Pennod 19	Mae'n ymdrin â'r egwyddorion arweiniol a ddylai lywio'r broses benderfynu ar gyfer pob plentyn, pa un a yw'r plentyn yn ddarostyngedig i orfodaeth ai peidio, a allai gynnwys cael ei gadw dan y Ddeddf. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ynghylch asesu plant, gofalu am blant a thrin plant sy'n ddarostyngedig i orfodaeth, arweiniad ynghylch y broses o ddewis rhwng Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Plant 1989 ac arweiniad ynghylch cydsynio â thriniaeth, gan gynnwys materion cymhwysedd a

	galluedd.
Pennod 20	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch cymhwyso'r Ddeddf i bobl ag anabledd dysgu neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig.
Pennod 21	Mae'n rhoi arweiniad i broffesiynolion ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ag anhwylderau personoliaeth.
Pennod 22	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch defnyddio'r Ddeddf i asesu a thrin pobl ag anhwylder meddyliol sy'n dod gerbron y gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae'n rhoi arweiniad ynghylch derbyn a rhyddhau.
Pennod 23	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â thriniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, a'r hyn sy'n gyfystyr â thriniaeth feddygol briodol dan y Ddeddf.
Pennod 24	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol dan y Ddeddf a pha driniaeth y gellir ei rhoi heb gydsyniad cleifion. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ynghylch hybu gofal iechyd corfforol da ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.
Pennod 25	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch y rheolau a gweithdrefnau arbennig yn y Ddeddf ar gyfer mathau arbennig o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol ac yn arbennig meddyginiaeth a therapi electrogynhyrfol, ond mae triniaethau eraill a ddefnyddir yn llai cyffredin wedi'u cynnwys hefyd. Mae'n rhoi arweiniad o ran pa driniaethau y mae'n ofynnol cael cydsyniad a/neu ail farn ar eu cyfer.
Pennod 26	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch gwaith rheoli diogel, cefnogol a therapiwtig ar gyfer cleifion y mae eu hymddygiad yn peri risg iddynt hwy eu hunain neu i eraill.
Pennod 27	Mae'n rhoi arweiniad o ran pwy sydd â'r pŵer i roi caniatâd i fod yn absennol, ar gyfer absenoldeb byrdymor a hirdymor, absenoldeb dan hebryngiad, caniatâd i aros mewn ysbytai eraill, a'r pŵer i alw cleifion yn ôl o'u habsenoldeb.
Pennod 28	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch y pwerau dan adran 18 o'r Ddeddf i ddychwelyd claf sy'n absennol heb ganiatâd ac ynghylch y polisiau a ddylai fod ar waith i nodi'r camau gweithredu angenrheidiol mewn sefyllfaoedd o'r fath.
Pennod 29	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch diben gorchymyn triniaeth gymunedol (GTG) gan gynnwys y broses ar gyfer asesu addasrwydd defnyddio GTG ac ynghylch dyletswyddau'r ymarferwyr a'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â rheoli cleifion sy'n ddarostyngedig i GTG.

Pennod 30	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch diben gwarcheidiaeth, asesu claf ar gyfer gwarcheidiaeth, cyfrifoldebau awdurdodau lleol ac elfennau gwarcheidiaeth.
Pennod 31	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch penderfynu rhwng y tri opsiwn (absenoldeb gyda chaniatâd, GTG neu warcheidiaeth) ar gyfer cleifion sy'n ddarostyngedig i bwerau'r Ddeddf.
Pennod 32	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch sut y dylai'r gweithdrefnau yn y Ddeddf ar gyfer adnewyddu cyfnodau cadw ac ymestyn GTG gael eu cymhwyso. Mae'n rhoi arweiniad hefyd ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r clinigwr â chyfrifoldeb, rôl perthynas agosaf y claf a phŵer y perthynas agosaf i ryddhau'r claf.
Pennod 33	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch dyletswydd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i ddarparu ôl-ofal ar gyfer rhai cleifion dan adran 117 o'r Ddeddf.
Pennod 34	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion a gedwir dan y Ddeddf a chleifion anffurfiol perthnasol. Mae'n cynnwys y cleifion hynny sy'n ddarostyngedig i GTG, a dderbyniwyd i warcheidiaeth yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir dan adran 117.
Pennod 35	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch cael ac archwilio dogfennau dan y Ddeddf.
Pennod 36	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch y broses o adnabod Clinigwyr â Chyfrifoldeb ar gyfer cleifion sy'n cael eu hasesu a'u trin dan y Ddeddf, gan gynnwys newid y Clinigwr â Chyfrifoldeb.
Pennod 37	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch cyfrifoldebau rheolwyr ysbyty dan y Ddeddf, ac ynghylch adnabod rheolwyr ysbyty, y modd y dylent arfer eu swyddogaethau ac ynghylch eu pwerau a'u dyletswyddau penodol.
Pennod 38	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch pŵer rheolwyr ysbyty dan adran 23 o'r Ddeddf i ryddhau'r rhan fwyaf o gleifion o gedwir, yr holl gleifion sy'n ddarostyngedig i GTG a, chyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y rhai sy'n ddarostyngedig i orchymyn ysbyty interim dan adran 38 neu gleifion dan gyfyngiadau. Ni allant ryddhau'r cleifion hynny a gedwir gan ddefnyddio'r pwerau cadw yn adran 5 na chleifion a gedwir mewn man diogel dan adrannau 135 neu 136 o'r Ddeddf.
Pennod 39	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch gwrthdaro buddiannau a all godi, sy'n atal Proffesiynolyn Iechyd Meddwl Cymeradwy rhag gwneud y cais i gadw claf neu ei gymryd i warcheidiaeth, a

	meddyg rhag gwneud argymhelliad sy'n ategu'r cais.
Pennod 40	Mae'n rhoi arweiniad ynghylch hawliau dioddefwyr troseddau difrifol, treisgar a throseddau rhyw a gyflawnwyd gan bobl benodol a gedwir dan Ran 3 o'r Ddeddf. Mae'n cynnwys yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu a'r rhwymedigaethau a osodir ar yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Gyfiawnder ac lechyd, yn ogystal â phroffesiynolion, mewn perthynas â dioddefwyr.

Y broses a'r holiadur ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar 4 Medi 15 a bydd yn rhedeg tan 27 Tachwedd 2015

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad ar y sylwadau a gafwyd, ac yn cyhoeddi pob sylw a gafwyd, oni bai fod awduron wedi gofyn iddynt gael eu trin fel sylwadau cyfrinachol (yn amodol ar y materion a nodir yn yr adran ar ddiogelu data ar dudalen 2). Bydd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Cod o ganlyniad i sylwadau a gafwyd.

Wedyn, bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Cod, a fydd yn cynnwys y sylwadau a wnaed, yn cael ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r gweithdrefnau sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf lechyd Meddwl 1983.

Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i'w chael isod. Ceir manylion o ran sut i ymateb yn y trosolwg ar dudalen 1.

Diwygio Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:			
Os ydych yn cynrychioli sefydliad, nodwch pa un:			
Eich e-bost:			
Rydw i'n ymateb fel: (ticiwch un blwch yn unig os gwelwch yn dda)	Staff y GIG (manylwch)		
	Proffesiynolyn Iechyd Meddwl Cymeradwy		
	Gweithiwr Cymdeithasol		
	Eiriolwr		
	Corff Proffesiynol (manylwch)		
	Unigolyn proffesiynol arall (manylwch)		
	Sefydliad cyfreithiol		
	Sefydliad y trydydd sector		
	Cyn-glaf neu glaf		
	Aelod teulu neu ofalwr		
	Aelod y cyhoedd		
	Arall		
Eich cyfeiriad:			
Os hoffech i'r wybodaeth hon gael ei chadw'n gyfrinachol ticiwch y blwch. Darllenwch yr adran ar ddiogelu data ar dudalen 2.			☐

Mae'r papur hwn yn gwahodd sylwadau gan ystod eang o randdeiliaid ac unrhyw bartion eraill sydd â diddordeb. Mae'n gofyn rhai cwestiynau penodol am y Cod, ac o gofio dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu cydraddoldeb, mae'n gofyn pa effaith allai'r Cod ei chael ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas. Mae'r cwestiwn olaf yn gofyn am eich sylwadau cyffredinol ar unrhyw faterion nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt.

Wrth roi eich sylwadau, nodwch y bennod berthnasol a rhif y paragraff yn y Cod Ymarfer drafft y maent yn cyfeirio ato.

Cwestiwn 1

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylid gwrandio ar eu barn, ei gwerthfawrogi a'i hystyried?

Ydy**Yn
rhannol****Nac ydy**

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 2

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai teuluoedd a/neu ofalwyr cleifion gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylid gwrandio ar eu barn, ei gwerthfawrogi a'i hystyried, er enghraifft, o fewn y cynllun gofal a thriniaeth?

Ydy**Yn
rhannol****Nac ydy**

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 3

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n eglur y dylai cleifion gael eu trin mewn amgylchedd diogel a chefnogol, ac un sy'n briodol i'w hanghenion penodol?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 4

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion gael eu cludo i ac o'r ysbyty gan ddefnyddio'r dull mwyaf diogel a phriodol i ddiwallu eu hanghenion?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 5

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion, eu teuluoedd a'u gofalmwyr gael yr wybodaeth sy'n diwallu eu hanghenion a chael eu hysbysu ynghylch eu hawliau?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 6

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylid cyfathrebu gyda chleifion, eu teuluoedd a gofalmwyr mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion yn y modd gorau?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 7

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylid trin cleifion yn deg ac yn gyfartal?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 8

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir bod cleifion mewn ysbyty'n gallu cael mynediad at deulu a ffrindiau, yn gallu cyfathrebu gyda hwy yn breifat a, lle y bo'n briodol, yn gallu cysylltu â'r bobl y maent hwy'n dewis cysylltu â hwy trwy gyfryngau amrywiol heb niwed i'w preifatrwydd, eu diogelwch a'u hurddas hwy eu hunain a phreifatrwydd, diogelwch ac urddas eraill?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 9

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai staff gael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 10

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion gael eu galluogi, hyd y bo'n ymarferol, i gyfrannu'n llawn i'w Cynllun Gofal a Thriniaeth, ac i wneud cymaint â phosibl o benderfyniadau drostynt hwy eu hunain?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 11

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau penodol gael eu cynnwys, hyd y gellir, yn eu gofal a'u triniaeth?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 12

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir, pan fo penderfyniadau yn y cynllun gofal a thriniaeth yn groes i ddymuniadau'r claf neu eraill, y dylai'r rhesymau gael eu hegluro wrthynt a'u cofnodi?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 13

A yw'r Cod, fel y'i drafftiwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr gael eu hysbysu ynghylch eu hawliau, a bod gan gleifion fynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol?

Ydy**Yn
rhannol****Nac ydy**

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 14

A yw'r Cod, fel y'i drafftiwyd, yn esbonio'n glir sut y dylai cleifion, eu teuluoedd, eu gofalwyr ac eraill gael eu cadw mor ddiogel â phosibl?

Ydy**Yn
rhannol****Nac ydy**

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 15

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir sut y dylai pobl sydd mewn argyfwng o ran eu hiechyd meddwl mewn mannau cyhoeddus, gael eu cynorthwyo a'u cadw'n ddiogel yn y lle mwyaf addas ac am gyn lleied o amser ag sy'n angenrheidiol?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

Cwestiwn 16

A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylai cleifion ac, os yn addas, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gael yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn deall pam eu bod yn yr ysbyty a'r driniaeth y maent yn mynd i gael ei chynnig neu y mae'n rhaid iddynt ei chael?

Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		

Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod

--

Cwestiwn 17		
A yw'r Cod, fel y'i drafftwyd, yn esbonio'n glir y dylid cyfyngu gyn lleied â phosibl ar ryddid claf ac y dylid hwyluso'r broses o'i ryddhau cyn gynted â phosibl?		
Ydy		
Yn rhannol		
Nac ydy		
Os ydych wedi dewis Yn rhannol neu Nac ydy fel ateb, a bod gennych ddiwygiadau neu sylwadau, rhowch y rhain yn y blwch isod		

Cwestiwn 18
Hoffai Llywodraeth Cymru wybod a fydd diwygio'r Cod Ymarfer yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Byddem ni hefyd yn croesawu eich sylwadau ynghylch os yw'r Cod Ymarfer yn adlewyrchu anghenion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ddigonol.

Cwestiwn 19

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny, neu i atodi sylwadau pellach: